TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# BTEC Diploma Cenedlaethol mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig Lefel 3



**Yn gryno**

Mae'r cwrs yn rhedeg fel dull astudio amser llawn, ac fel opsiwn rhan amser, a hefyd yn bosibl fel rhan o brentisiaeth.

Os ydych chi'n edrych ar symud ymlaen i yrfa broffesiynol ym maes adeiladu - fel pensaerniaeth, cynllunio, dylunio adeiladau, rheoli prosiect, syrfëwr meintiau, tirfesur adeiladau neu dechnegydd CAD - gallai hwn fod yn gwrs perffaith.

Mae'r cwrs yn ymdrin ag amrywiaeth eang o bynciau a fydd yn eich galluogi i gychwyn ar yrfa mewn adeiladu, neu symud ymlaen i Brifysgol gyda chymhwyster cydnabyddedig.

**Mae'r cwrs hwn ar gyfer...**

...unrhyw un sydd eisiau gyrfa yn nisgyblaethau technegol y diwydiant adeiladu, neu sy'n dymuno symud ymlaen â'u hastudiaethau ar gymhwyster adeiladu yn y Brifysgol

...Myfyrwyr sy'n dymuno symud ymlaen i brentisiaethau neu hyfforddeion sydd am ddechrau

prentisiaeth dechnegol trwy eu cwmni, neu Gynghrair Prentisiaethau Cymru.

...Y rhai sydd eisoes yn y diwydiant adeiladu sydd am uwchsgilio, neu o bosibl symud o'r crefftau i'r swyddi technegol, megis arolygu adeiladau neu reoli prosiectau.

**Cynnwys y cwrs**

Wrth ennill gwybodaeth fanwl am y diwydiant, byddwch yn paratoi eich hun ar gyfer gyrfa bosibl mewn amrywiaeth o rolau gan gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, bensaernïaeth, cynllunio, peirianneg sifil, dylunio adeiladau, rheoli prosiectau, mesur meintiau, tirfesur adeiladau a thechnegwyr CAD.

Mae Prentisiaethau Dysgu Seiliedig ar Waith Coleg Gwent ar gael, a bydd hyn hefyd yn ffurfio dilyniant naturiol i'r prentisiaid hynny sydd eisoes wedi cyflawni NVQ seiliedig ar grefft.

Os oes gennych ddiddordeb mewn dilyn gyrfa broffesiynol ym maes adeiladu, mae hwn yn gwrs dilyniant da i chi. Gall y cwrs gynnwys cynllunio, cynaliadwyedd, dylunio a gweithio fel rhan o dîm safle neu swyddfa. Byddwch yn astudio unedau craidd ac unedau dewisol, gan gynnwys:

Dylunio
Egwyddorion Adeiladu
Tirfesur
Amcangyfrif
Manylion Graffigol

Byddwch yn ymwneud â phrosiectau rhyngbroffesiynol parhaus a gweithgareddau ymarferol ar y safle, gan gynnwys tirfesur topograffig a llinol, dylunio â chymorth cyfrifiadur (CAD) a thechnegau lluniadu graffigol.

Cewch eich asesu trwy waith cwrs, a fydd yn cynnwys gweithgareddau ysgrifenedig ac ymarferol. Ar ôl ei gwblhau, byddwch yn ennill cymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol:

Pearsons BTEC Lefel 3 mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig
Cymwysterau ategol priodol i ehangu eich set sgiliau a chwrdd ag anghenion diwydiant

**Gofynion Mynediad**

Oherwydd amrywiaeth y myfyrwyr sy'n mynychu'r cwrs hwn; gallai eich cymwysterau gynnwys

rhai o'r canlynol, ond nid o reidrwydd pob un:

Cymwysterau Lefel 3 mewn Masnach, gan gynnwys diplomâu ac NVQs
5 TGAU gan gynnwys Saesneg a Mathemateg
Profiad Diwydiant gyda chyfweliad
Lefel A, Gradd neu gymwysterau uwch gyda golwg ar newid cyfeiriad gyrfa

**Gwybodaeth Ychwanegol**